Cwblhau brawddegau

Edrychwch ar y brawddegau isod. Mae gair ar goll ym mhob un.
Ticiwch y bocs wrth ochr y gair **gorau** i lenwi'r bwlch.
Does dim rhaid i chi ysgrifennu'r gair yn y bwlch.

1 Mae Dad yn ailgylchu bagiau _____ .

pren ☐ metel ☐ haearn ☐ plastig ☐ dŵr ☐

1 — 1m

2 Doedd tŵr y castell ddim yn _____ iawn.

uchel ☐ uchod ☐ uwchben ☐ uchaf ☐ uwch ☐

2 — 1m

3 "Paid anghofio dy waith cartref!" _____ Mam.

gwaedd ☐ gwaeddwch ☐ gwaeddodd ☐ gwaeddais ☐ gwaeddom ☐

3 — 1m

4 Mae reidio beic dwy _____ yn hwyl.

oen ☐ olwyn ☐ olew ☐ oren ☐ oedolyn ☐

4 — 1m

5 Roedd _____ cas ar Mari, felly aeth hi at y doctor.

annwyl ☐ angen ☐ anrheg ☐ antur ☐ annwyd ☐

5 — 1m

6 _____ Marged a brifo'i braich.

Syrthio ☐ Syrthiodd ☐ Sythais ☐ Syrthion ☐ Sythu ☐

6 — 1m

7 Guto yw _____ y Cyngor Ysgol.

cadair ☐ cadw ☐ cadeirydd ☐ cadarn ☐ cadeiriau ☐

7 — 1m

8 Mae lemwn yn _____ iawn.

sâl ☐ sudd ☐ sêr ☐ syth ☐ sur ☐

8 — 1m


STOPIWCH **Arhoswch am ganiatâd cyn dechrau gweithio ar dudalen 6.**

CYFANSWM — 8m

Yn gyntaf, darllenwch bob darn darllen sydd mewn bocs ar dudalennau 8–14.
Wedyn, trowch yn ôl i'r dudalen hon a dechrau ateb y cwestiynau.

Dannedd

Rydyn ni'n defnyddio ein dannedd i siarad, gwenu a bwyta. Dyma bwrpas y gwahanol fathau o ddannedd:



Fel arfer mae person yn tyfu **dwy** set o ddannedd yn ystod ei oes.

Dannedd babi	Dannedd parhaol
tua 20 dant	tua 32 dant
yn tyfu rhwng 6 mis a 3 blwydd oed	rhai yn tyfu ar ôl i ni golli ein dannedd babi
yn dechrau dod yn rhydd tua 6 oed	yn aros gyda ni am weddill ein bywyd

1 Pa bethau mae dannedd yn ein helpu ni i'w gwneud?

Ticiwch **3**.

siarad ☐ bwyta ☐

yfed ☐ gwenu ☐

blasu ☐ gweld ☐

1
1m

2 Dewiswch y gair gorau i orffen y frawddeg isod.

Wrth fwyta, mae gwahanol ddannedd yn cnoi, yn rhwygo ac yn …

Ticiwch **1**.

talu. ☐

torri. ☐

tyfu. ☐

tynnu. ☐

2
1m

3 Rhowch y digwyddiadau hyn yn eu trefn, o 1 i 5.

Mae rhif 5 wedi'i wneud yn barod i chi.

dannedd parhaol yn dechrau tyfu ☐

20 o ddannedd babi wedi tyfu ☐

32 o ddannedd parhaol wedi tyfu 5

dannedd babi'n dechrau tyfu ☐

dannedd babi'n dod yn rhydd ☐

3
1m

trosodd

CYFANSWM
3m

Rhybudd!



Mae bwyta ac yfed pethau sy'n cynnwys siwgr yn gallu gwneud drwg i'ch dannedd. Gall bacteria sy'n byw yn eich ceg droi siwgr yn asid. Mae hyn yn gwneud niwed i'ch dannedd.

Drwy ofalu am eich dannedd, rydych chi'n gallu gwneud yn siŵr na fyddan nhw'n pydru.

4 *Rhybudd!*

Pam mae ebychnod (!) ar ddiwedd y gair?

Ticiwch **2**.

- Mae'r gair yn bwysig iawn. ☐
- Mae'r gair yn ddoniol dros ben. ☐
- Mae'r gair yn tynnu sylw at rywbeth. ☐
- Mae'n rhaid anghofio'r gair. ☐
- Mae'n rhaid sibrwd y gair. ☐

4
1m

5 **Dewiswch** a **chopïwch 1** gair am rywbeth sy'n troi siwgr yn asid.

_____

5
1m



Dyma sut i gadw eich gwên yn ddisglair:

- brwsio dannedd o leiaf ddwywaith y dydd am ddau funud
- defnyddio past dannedd sydd â fflworid ynddo
- poeri yn lle rinsio
- osgoi bwyd a diod sydd â llawer o siwgr ynddo
- yfed dŵr a llaeth yn bennaf
- mynd at y deintydd yn gyson.

6 Ticiwch i ddangos beth sy'n **dda** neu'n **ddrwg** i'ch dannedd.

	Yn dda ☺	Yn ddrwg ☹
siwgr		
asid		
brwsio am ddau funud		
fflworid		
ymweld â'r deintydd		

6
2m

trosodd

CYFANSWM
4m

Dyma gerdd am blentyn o'r enw Ceri sydd eisiau bod yn ddeintydd.

Mae Siân am fod yn beilot
A hedfan uwch y cwm,
A gyrru tractor anferth
Trwy'r cae yw awydd Twm.



Ond wedi i mi dyfu
A chroesi'r ugain oed,
Mi hoffwn fynd yn ddeintydd,
Y gorau fu erioed!

Caf ddweud wrth blant pob ysgol:
"Rhaid brwsio'ch dannedd chi
I sgleinio fel yr eira,
Mor lân â 'nannedd i!"

Caf hwyl â'r golau llachar
A'r gadair lan-a-lawr;
Nid gwaith fydd bod yn ddeintydd
I mi, ond chwarae mawr!

7 Tynnwch **3** llinell i ddangos pwy sydd eisiau gwneud pa swydd.

Siân	gyrrwr tractor
Twm	deintydd
Ceri	peilot

7
1m

8 … *sgleinio fel yr eira* …

Pa fath o ddannedd sy'n cael eu disgrifio?

Ticiwch **2**.

trwchus	☐	gwlyb	☐
oer	☐	glân	☐
gwyn	☐	meddal	☐

8
1m

9 Ble yn y gerdd mae Ceri'n disgrifio beth sydd yn ystafell y deintydd?

Ticiwch **1**.

- pennill 1 ☐
- pennill 2 ☐
- pennill 3 ☐
- pennill 4 ☐

9
1m

10 Ticiwch **cywir** neu **anghywir** i ddangos beth mae Ceri yn ei ddweud yn y gerdd.


	Cywir	Anghywir
Mae'n rhaid bod yn oedolyn cyn mynd yn ddeintydd.		
Mae'n mynd i fod yn ddeintydd da iawn.		
Mae eisiau siarad â phlant ysgol am eu gwallt.		
Mae brwsio dannedd yn bwysig.		
Mae'n hwyl bod yn ddeintydd.		


10
2m

trosodd

CYFANSWM
5m

Ffeithiau am ddannedd





Rhan galetaf y corff yw enamel y dant.

Mae oedolyn yn gwenu tua 20 gwaith y dydd.
Ond mae plentyn yn gwenu tua 400 o weithiau bob diwrnod!

Yn ystod ei fywyd, bydd person yn treulio tua 38 diwrnod yn brwsio'i ddannedd.

11 **Dewiswch** a **chopïwch 1** gair sy'n dangos rhan galetaf y corff.

_____

11
1m

12 Meddyliwch am **bob rhan** o'r darn darllen 'Dannedd'.

Beth mae'r darn yn ei ddysgu i ni?

Ticiwch **3**.

- sut mae gofalu am eich dannedd ☐
- sut mae deintydd yn gyrru ☐
- sut mae gwenu o flaen y camera ☐
- ffeithiau am ddannedd pobl ☐
- ffeithiau am ddannedd anifeiliaid ☐
- ffeithiau am beth sydd yn eich ceg ☐


12
1m

STOPIWCH **Arhoswch am ganiatâd cyn dechrau gweithio ar dudalen 16.**

CYFANSWM
2m

Arhoswch am ganiatâd cyn dechrau gweithio ar dudalen 16.

Yn gyntaf, darllenwch bob darn darllen sydd mewn bocs ar dudalennau 16–21.
Wedyn, trowch yn ôl i'r dudalen hon a dechrau ateb y cwestiynau.



Tîm Trwsio Tegwen

"Pam dydy Mrs Evans byth yn dod allan i'r ardd nawr?" gofynnodd Meg gan edrych draw ar y tŷ drws nesaf. Roedd y tywydd wedi bod yn boeth ac yn heulog ers dros wythnos a Meg a'i brawd Harri'n chwarae'n hapus ar y trampolîn neu'n taflu dŵr dros ei gilydd bob prynhawn ar ôl ysgol. Fel arfer byddai Mrs Evans, yr hen wraig oedd yn byw drws nesaf, yn dod at y ffens i siarad â nhw.

1 Edrychwch ar y brawddegau isod.

Pa rai sy'n gywir?

Ticiwch **2**.

Roedd y tywydd yn oer ar ddechrau'r stori. ☐

Meg oedd enw chwaer Harri. ☐

Roedd Harri a Meg yn hoffi chwarae ar y trampolîn. ☐

Mrs Jones oedd enw'r hen wraig. ☐


Roedd Mam yn siarad dros y ffens. ☐

1

1m

"Ers iddi ddod allan o'r ysbyty, dydy hi ddim yn gallu cerdded yn dda iawn," atebodd Mam, oedd yn eistedd ac yn darllen. "Mae hi'n defnyddio ffrâm gerdded ac mae'n anodd iddi ddringo'r grisiau wrth y drws cefn."

Erbyn hyn, roedd Harri ar ben y sleid ac yn edrych i lawr ar ardd Mrs Evans.
"Mae'r gwair wedi tyfu'n hir iawn ac mae chwyn ym mhob man. Mae'n edrych fel jyngl!"



2 Tynnwch **3** llinell i ddangos pwy oedd yn gwneud beth.

Mam	edrych i lawr
Harri	defnyddio ffrâm gerdded
Mrs Evans	eistedd ac yn darllen


2

1m

trosodd

CYFANSWM

2m




Y noson honno daeth rhaglen newydd o'r enw 'Tîm Trwsio Tegwen' ar y teledu. "Ydych chi'n 'nabod rhywun sydd angen help yn y tŷ neu yn yr ardd?" gofynnodd Tegwen, gan wenu'n braf ar y camera. "Mae'r tîm yn barod i helpu, felly cysylltwch â ni."

"Mae gen i syniad da!" meddai Harri, gan droi at y cyfrifiadur a dechrau teipio'r geiriau hyn, 'Annwyl Tegwen …' .

3 Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	Cywir	Anghywir
Rhaglen ar y we oedd Tîm Trwsio Tegwen.		
Ffoniodd Harri'r rhaglen deledu.		
Roedd cyfrifiadur gan Harri.		
Cafodd Meg syniad da.		
Meg oedd enw'r cyflwynydd teledu.		

3
2m



Un mis yn ddiweddarach roedd Harri a Meg a'u tad yn gwylio Tegwen a'r tîm wrth eu gwaith yn yr ardd drws nesaf. Roedd Mam wedi mynd â Mrs Evans allan am y diwrnod.

Roedd merch mewn het haul yn adeiladu ramp o'r drws cefn i'r ardd. Ym mhen pellaf yr ardd roedd dau ddyn wrthi'n gosod cerrig mân lle roedd y lawnt yn arfer bod.

"Da iawn. Fydd dim angen i Mrs Evans dalu rhywun i dorri'r gwair o hyn ymlaen," meddai Dad.

4 **Dewiswch** a **chopïwch 1** gair sy'n dangos bod amser wedi mynd heibio rhwng rhan gyntaf ac ail ran y stori hon.

_____

4
1m

5 Beth oedd yn lle'r lawnt yng ngardd newydd Mrs Evans?

Ticiwch **1**.


- blodau ☐
- cerrig mân ☐
- cerrig mawr ☐
- coed ☐
- gwair ☐

5
1m

trosodd

CYFANSWM
4m

Siaradodd Tegwen yn frwd, gan edrych i mewn i'r camera a chwifio'i breichiau. Pwyntiodd at ddyn ifanc oedd yn plannu blodau lliwgar mewn bocs mawr pren, gan ddweud, "Bydd Mrs Evans yn gallu eu gweld nhw o'r ffenestr a fydd dim rhaid iddi blygu i lawr i'w torri nhw."



6 Edrychwch ar y brawddegau isod.

Pa rai sy'n gywir?

Ticiwch **2**.

- Siaradodd Tegwen yn frwd. ☐
- Edrychodd Mrs Evans i mewn i'r camera. ☐
- Chwifiodd Tegwen ei breichiau. ☐
- Plannodd Mrs Evans y blodau. ☐
- Plygodd Tegwen i dorri'r blodau. ☐

6
1m



Erbyn pedwar o'r gloch roedd Tegwen a'r tîm wedi gorffen eu gwaith. Safai teulu Harri a Mrs Evans yn syllu ar yr ardd newydd. Gwenodd Harri'n swil o flaen y camera.
"Mae'n fendigedig!" meddai Mrs Evans. "Sut roeddech chi'n gwybod bod angen help arna i?"

Winciodd Tegwen ar Harri, gan ddweud, "Wel, mae bachgen caredig iawn yn byw yn eich stryd chi …".

7 **Dewiswch** a **chopïwch** y frawddeg sy'n dangos bod Mrs Evans yn hapus pan welodd hi'r ardd newydd.

_____

7
1m

8 Meddyliwch am y stori i gyd.

Ticiwch bob rhes i ddangos a yw'r bobl hyn yn perthyn i'r **teulu** neu i'r **tîm** trwsio.

	y teulu	**y tîm**
Meg		
Tegwen		
Harri		
y ferch mewn het haul		
y ddau ddyn		

8
2m

trosodd

CYFANSWM
4m

9 Meddyliwch am y stori i gyd.

Rhowch y digwyddiadau hyn yn eu trefn, o 1 i 5.

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

Harri'n anfon neges ar ei gyfrifiadur	☐
Meg a Harri'n chwarae yn yr ardd	1
Harri'n gwylio'r rhaglen deledu	☐
Tîm Trwsio Tegwen yn cyrraedd	☐
Mam yn darllen yn yr ardd	☐

9

1m

10 Beth yw neges y stori hon?

Ticiwch **1**.

- Rhaid cadw'r ardd yn daclus. ☐
- Rhaid mynd ar raglen deledu. ☐
- Rhaid helpu hen bobl. ☐
- Rhaid plannu blodau. ☐

10

1m

Diwedd y prawf. Gwiriwch eich gwaith.